



Pris: 50c

Papur Pawb

Hydref 2015 Rhif 412



tud 3, 5

Pobl a Phethe

tud 4, 5, 12, 13

Ysgolion

tud 15

Y Gair Olaf

tud 16

Chwaraeon

Cyfle olaf i achub Ysgol Llangynfelyn!



Er bod Cabinet Ceredigion wedi rhoi ei sêl bendith ar y bwriad i gau Ysgol Llangynfelyn, mae rhieni yn annog trigolion y plwyf, y pentrefi cyfagos, a phawb sydd yn cefnogi addysg a darperir gan ysgolion bach ein cefn wlad, i fynegi barn. Mae un cyfle arall i wrthwynebu'r bwriad cyn ei fod yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr.

Mae rhieni wedi bod yn ymgyrchu'n ddi-baid ers cyhoeddi'r bwriad gwreiddiol i gau'r ysgol, sydd wedi darparu ysgol gynradd ers 140 mlynedd bron. Roedd grŵp ohonyn nhw wedi teithio i Neuadd y Sir yn Aberaeron i brotestio wrth i'r Cabinet drafod y cynnig. Mae ymgyngoriad wedi'i gynnal dros yr haf a chafwyd ymateb cadarnhaol - roedd pob un o'r 60 ymateb yn gwrthwynebu cau'r ysgol, ac yn pryderu am ddyfodol y pentref a'r ardal ehangach, a'r iaith Gymraeg.

Meddai un rhiant, Tom Cosson, sydd gyda mab, Hopcyn, yn yr ysgol "mae pawb yn cydnabod bod niferoedd yn yr ysgol yn isel. Mae rhieni a'r staff wedi gweithio'n galed iawn i gynnal mwy o weithgareddau ar ôl ysgol i ddenu rhieni newydd - ond gyda'r fwyell yn hongian dros yr ysgol mae hyn yn dasg heriol iawn."

Ychwanegodd "Mae gan bawb bryderon am sut mae'r Cyngor wedi gweithredu. Rydym yn credu bod swyddogion wedi goramcangyfrif yr arbedion fydd yn dod fel canlyniad o gau'r ysgol, a heb drin o ddifri consyrn ar y gymuned a'r iaith Gymraeg. Mae teimlad cryf ymysg y rhieni nad yw cynghorwyr wedi craffu digon ar y ddogfennaeth a baratowyd gan swyddogion Adran Addysg, na ystyried yn fanwl y dystiolaeth a ddarperir gan y llywodraethwyr a'r rhieni. Yr argraff mae pawb yn cael yw bod swyddogion wedi hen benderfynu cau'r ysgol, ac wedyn mae dim ond mater o **parhad tud 6**



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis	
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832592 832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
Cadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bledyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyr o Munich

Ers rhai wythnosau roedden ni, fel teulu, wedi cynllunio'r trip i Munich gan bod Elan wedi ei derbyn i Goleg Dawns yno ac yn cychwyn astudio ganol Medi. Y cynllun oedd gyrru yno a theithio trwy Ffrainc i gael gwyliau byr ar y ffordd.

Diwrnodau cyn i ni adael cyhoeddodd Angela Merkel ei bod hi'n agor drysau'r Almaen ac yn croesawu faint bynnag o geiswyr lloches fewn i'r wlad. Ar ein ffordd drwy Ffrainc yr oedden ni'n darllen mewn papurau newydd am y ffoaduriaid yn cyrraedd Munich yn eu miloedd ac yn gweld nad oedd y wasg Ffrengig yn cytuno gyda'r cynllun. Ond yr oedden ni hefyd yn clywed ar deledu gyda'r nos gweinidigion gwledydd eraill – fel



Luxembourg – yn canmol polisi'r Almaen. Felly, o gyrraedd Munich, a chael Elan i'w llety, yr oedd yn rhaid i ni fynd i weld beth oedd yn digwydd yn yr orsaf drenau ganolog lle'r oedd y ffoaduriaid yn cyrraedd. Roedden ni'n disgwyl bedlam – fel hynny oedd y cyfryngau torfol yn darlunio'r peth – ond nid fel hynny oedd hi. Wel nid pan oedden ni yna yn sicr. Roedd yna lawer o ffoaduriaid yno – rhai'n eistedd a sgwrsio, llawer yn chwarae gemau gyda'u plant er mwyn eu diddanu, ac eraill yn ceisio cysgu. Popeth yn dawel a di-gynnwrf. Mi fues i'n siarad â rhai o'r ffoaduriaid. Un wedi gadael Syria mis Mehefin a wedi teithio i Balesteina, i Libya, yna Sicily ac yna lan drwy'r Eidal i Munich. Pam oedd hi a'i modryb wedi dod? Dod, meddai hi, er mwyn cael addysg. Ar drothwy 18 oed a doedd dim gobaith iddi hi gael addysg yn ei mam wlad. Siarad wedyn â merch arall. Hi a'i theulu wedi dod yno drwy wlad Groeg – ar ôl croesi'r môr a chael taith hynod beryglus. Dianc oedden nhw, meddai. A mor ddiolchgar i'r Almaen am eu croeso.

Wedi dychwelyd i'n gwesty ni y noson honno dyma siarad gyda'r dyn ifanc oedd yn gweithio yn y dderbynfa. Beth oedd ei farn e? Yn falch iawn o'i ddinas. Soniodd am y noson pan gyrhaeddodd y ffoaduriaid cyntaf ac aeth cannoedd ar gannoedd o bobol Munich i'r orsaf i'w croesawu a chyfrannu bwyd a dillad. Roedd hynny am hanner nos, nos Sadwrn, ac erbyn amser cinio dydd Llun roedd y swyddogion ar heddlu yn gofyn i baw beidio cyfrannu mwy – roedd mwy na digon yno. Roedd pobol y ddinas yn falch o gael helpu meddai.

Er mor anodd oedd gadael Elan mewn dinas 1,000 o filltiroedd i ffwrdd, yr oedden ni yn falch ei bod hi mewn dinas ddyngarol, garedig.

Catrin M S Davies

Dyddiadur

HYDREF

- 11 Bethel** 10 Trefniant lleol
Nasareth 2 Judith Morris
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Gwasanaeth Saesneg
- 13 Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Y Melys Lais' (Rhidian Griffiths)
- 15 Sefydliad y Merched Tal-y-bont** Cyfarfod Blynnyddol a Bwffe Cynhaeaf
- 18 Bethel** 10 Oedfa Undebol yr Ofalaeth (Diolchgarwch y Plant)
Rehoboth 2 Adrian P. Williams
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyl Weddi a Gwasanaeth Diolch am y Cynhaeaf
- 19 Merched y Wawr** 'Thema Dŵr mewn Cerddoriaeth' (Chris Lockley)
- 20 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 'Gwlad y Menyg Gwynion? Hanes troseddu a chosb yng Nghymru' (Richard Ireland) 7.30 Llan Fach
- 25 Bethel** 5 Gweinidog (C)
Rehoboth 10 John Hughes
Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Teuluol

TACHWEDD

- 1 Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 10 Bugail (C)
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol Weddi
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
- 3 Sefydliad y Merched Taliesin** 'Cyngor ar sut i dynnu lluniau (Anthony Jarret)
- 8 Bethel Rehoboth** 2 Bugail (C)
Neuadd Goffa Tal-y-bont 10.45 Gwasanaeth Sul y Cofio
- 10 Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Steddofa' (Hywel Wyn Edwards)

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Helen, Rhian a Ceri gyda Ceri yn dylunio.

Golygyddion mis Tachwedd fydd Medi (harryamedia@btinternet.com) a Llio (tomallio@tiscali.co.uk) gyda Tanwen Haf yn dylunio.

Mae Tanwen yn aelod newydd o'r tîm dylunio.

Croeso Tanwen a diolch am gytuno i'n cynorthwyo.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyd newyddion fydd dydd Gwener 6 Tachwedd, a bydd y papur ar werth ar 13 Tachwedd.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

FFAIR AMLDDIWYLLIANNOL (11.30-2.30, 17 Hydref). Dewch i wisgo sari, cael eich dwylo wedi'u paentio â henna neu ymuno mewn twmpath! Perfformiadau amrywiol hefyd. Mynediad: £3 (yn cynnwys powlenaid o gawl neu fwyd Indiaidd). Trefnir gan Morlan a Mind Aber i nodi Wythnos Un Byd. Elw at Mind Aber.

DEG DROS DDEG: CYFRYNGAU CYMDEITHASOL – MELLTITH NEU FENDITH? (7.30, 21 Hydref). Noson i drafod y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi tyfu'n aruthrol ers agor Morlan.

Manylion llawn: www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2JH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @MorlanAber



Priodas

Ar 19 Medi priodwyd Luned Alys Gwyn, Maesgwyn, Tal-y-bont, â Matthew David Phillips, Beddau, yng nghapel Bethel. Cynhaliwyd y wledd briodas yn y Falcondale, Llambed. Pob dymuniad da i'r ddau sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu Glenys Ann Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont a hefyd teulu John Thomas Rowlands, Brynhyfryd. Ceir teyrnged i John ar dudalen 9 a bydd teyrnged i Glenys yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.

Yn yr ysbyty

Bu nifer o ddarllenwyr y papur yn yr ysbyty dros yr wythnosau diwethaf. Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Ceri Hughes, Maes-y-Deri, Jack White, Caer Deintur a Bill Gardener, Pandy, Tal-y-bont.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mary a Bill Woolley, Garden Cottage, sydd wedi colli eu mab, David Woolley mewn damwain beic modur yn ddiweddar.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Megan Mai, Gwynionydd, Maes-y-felin sydd wedi cwmpo a thorri ei gardwrn.

Genedigaeth

Croeso mawr i Gruffydd Ifor, mab i Ceri a Dylan, gynt o Llwynglas a brawd bach i Osian Gwern.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Geraint Jenkins, Cerrigcyrrannau sydd wedi dyweddio â Eleri Wyn Marshalsay o Llanddeiniol.

Gwellhad buan

Danfonwn ein dymuniadau gorau at Ellie Davies, Gwynfryn sydd wedi torri ei choes yn ddiweddar. Bydd gwylwyr gofalus 'Y Gwyll' ar S4C yn siŵr o weld Ellie yn ystod y gyfres diweddaraf.

Penblwyddi arbennig

Dymuniadau gorau i'r canlynol sy'n dathlu penblwyddi arbennig yn ystod y mis diwethaf: Jano Evans, Maes-y-Deri, Rhian Dewhurst, Hefin Hopkins, Dyffryn, Mark Joseph, Stryd y Capel, Paul Watkin, Haulfor, Pentrebach a Medi Evans, Neuadd Fawr.

Pobl a Phethe



Gwydion - Theatr Maldwyn

Llongyfarchiadau i Clare Jones, Geraint Howard, Rhian Nelmes ac Anwen Howard am fod yn rhan o gorsw 'Gwydion' sioe Cwmni Theatr Maldwyn a fu'n perfformio yn Theatr Hafren, y Drenewydd ym mis Medi. Byddant yn recordio CD o'r sioe ym mis Tachwedd yng Nghanolfan y Banw. Mae Geraint hefyd wedi ei ddewis i fod yn rhan o gast 'Les Miserables: Fersiwn Ysgolion' a bydd yn perfformio Les Miserables yn y Gymraeg yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd. Bydd cast o 120 o bobl ifanc rhwng 13 a 19 oed yn perfformio 5 sioe ar nos Iau Hydref 29ain, prynhawn a nos Wener Hydref 30ain a prynhawn a nos Sadwrn Hydref 31ain.



Dyma aelodau Sefydliad y Merched yn Eglwysfach yn dathlu eu canmlwyddiant mewn steil yng Nghastell Glandyfi.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- a rhagor

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.cymru



Bardd y Gadair

Llongyfarchiadau i Carys Briddon, Tre'r-ddôl ar enmill cystadleuaeth y gadair yn Eisteddfod Felinfach.

Dyweddio

Llongyfarchiadau gwresog i Kimberley Rowlands, gynt o Dal-y-bont ac yn wyres i Mignon Rowlands, Glanhaul, Taliesin, ar ddyweddio â'i chariad Michael o Fanceinion yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Myrna Bailey, Arosfa, Taliesin, ar teulu ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Florence Stubbs, Tre'r-ddôl a bu farw yn ystod yr haf.

Gwellhad buan

Rydym yn dymuno gwellhad buan i Juliet Regan, Free Trade Hall, Taliesin, sydd ddim wedi bod yn hwylus dros y misoedd diwetha.

Llongyfarchiadau

Pob lwc i Medi Evans, Neuadd Fawr ar gael ei dewis yn Ddirprwy Prif Ferch yn Ysgol Penweddig.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Greg (gynt o Dŷ Manceinion, Taliesin) a Sophie Spencer ar enedigaeth eu merch fach Isabelle Olivia ar 4 Medi.

Plaid Cymru

Cangen Tal-y-bont –
Elin Jones AC Ceredigion
Be nesa' i Geredigion a Chymru?

Gwaelod Neuadd Goffa
Tal-y-bont
Nos Iau, 15 Hydref, 7.30
Croeso cynnes i bawb



Priodasau



Llangyfarchiadau i Arwyn Parry Jones o Dal-y-bont a Christielle Cunha de Araujo sydd wedi priodi ar Medi 12fed yn Manaus, Brasil.



Ar Medi 19 priodwyd William Iestyn Roberts, mab Gerald ac Eirian Roberts, Maes-y-Deri â Kate Elizabeth Collins. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonnynt.

Ysgol Llangynfelyn



Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn



Sioe Owain Glyndŵr



Pêl-droed 5-bob-ochr yr Urdd



Dyna 'dw i'n licio yn Talybont - digon o ddewis!

Ysgol Llangynfelyn

Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn

Llongyfarchiadau i blant yr ysgol a fu'n llwyddiannus yn Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn ar ddechrau mis Medi.

Sioe Owain Glyndŵr

Aeth Dosbarth Mrs Evans i Ganolfan Owain Glyndŵr ym Machynlleth i weld sioe arbennig am Owain Glyndŵr. Roedd y sioe yn cyd-fynd â dathliadau Diwrnod Owain Glyndŵr ar Fedi'r 16eg. Roedd y sioe yn gyflwyniad rhyngweithiol am hanes Owain Glyndŵr gan y cwmni 'Mewn Cymeriad' yn yr adeilad hanesyddol bwysig sef Senedd-dy Owain Glyndŵr. Dysgodd y plant lawer am hanes Owain Glyndŵr drwy wyllo'r sioe a chafodd rhai plant y cyfle i wisgo fyny ac actio ychydig gydag Owain Glyndŵr ei hunan.

Parti gadael Anti Shân

Aeth criw o blant yr ysgol draw i Ysgol Tal-y-bont i ffarfelio ag Anti Shân ar ei diwrnod olaf yn y Cylch Meithrin ac yn Ysgol Tal-y-bont. Rydym yn gwerthfawrogi'r holl waith caled y bu Shân yn gwneud yn y Cylch Meithrin yn paratoi'r plant bach lleiaf cyn iddynt ddod i'r ysgol. Diolch yn fawr Anti Shân a phob dymuniadau iddi yn ei swydd newydd.

Pêl-droed 5-bob-ochr yr Urdd

Aeth tîm pêl-droed yr ysgol sef, Poppy, Violet, Seamus, Elijah, Asher a Finn i'r Ganolfan Hamdden ym Mhlascrug i gymryd rhan yn nhrwnamaint pêl-droed 5-bob-ochr yr Urdd i ysgolion gyda llai na 50 o blant. Roedd 6 gêm ganddynt i chwarae ac enillon nhw bedair gêm ac roedd dwy gêm yn gyfartal. Sgoriwyd 11 gôl gan y tîm a bu'n agos iawn ar y diwedd gyda'r tîm yn dod yn ail gyda dim ond dau bwynt rhyngddynt â'r enillwyr. Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt!

Sioe 'HOLA'

Aeth Dosbarth Mrs Evans i Neuadd y Borth i weld sioe newydd cwmni Arad Goch sef 'HOLA'. Roedd y sioe yn adrodd hanes teithio ar y Mimosa i Batagonia 150 o flynyddoedd yn ôl. Roedd y sioe yn arbennig o dda a mwynhaodd y plant yn fawr iawn.

Llysgenhaddon Efydd

Mae Poppy Roberts a Finn Langley wedi eu dewis i fod yn Llysgenhaddon Efydd yr ysgol am eleni. Byddant yn mynychu hyfforddiant chwaraeon yn Ysgol Plasrugg ym mis Hydref gyda'r bwriad o gynorthwyo gyda gemau a gweithgareddau chwaraeon yn yr ysgol amser chwarae.

Amser Stori

Aeth Dosbarth Mrs Nemes draw i siop Cynfelyn am sesiynau stori yng nghwmni Shân Evans a Medi James. Maent wedi mynychu dau sesiwn hyd yn hyn ar bwriad yw cerdded draw i'r siop yn rheolaidd am yn ail brynghawn Dydd Iau rhwng 2.30yp a 3.15yp. Mwynhaodd y plant chwarae yn yr Ardall Deganau a gwrando ar storïau Cymraeg yn y Cwtsh.

Clwb Garddio/Eco

Bu aelodau'r Clwb Garddio'n brysur iawn yn plannu bylbiau yn ystod yr hanner tymor yma. Rydym yn mawr o beithio bydd arddangosfa liwgar iawn o flodau'r gennym yn y gwanwyn.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Croesawyd yr aelodau i festri capel Rehoboth, Tre-Taliesin, ar ddechrau tymor newydd ar brynghawn dydd Mawrth, 8 Medi, gan ein llywydd, Eiriona Metcalfe. Llinos Dafis, Llandre, oedd y wraig wadd, a thrwy gyfrwng sleidiau cafwyd cipolwg ar ei thaith hi a'i gwŷr i'r Wladfa ym Mhatagonia. Roeddent wedi ymweld â'r Gaiman, Porth Madryn, Trelew a Threfelin a diddorol oedd clywed yr hanes a gweld yr enwau Cymraeg sydd wedi goroesi yno, yn enwedig yn y mynwentydd lle cafodd y Cymry eu claddu. Cawsom hanes y cysylltiad teuluol oedd ganddynt â'r Wladfa, sef teulu Eben Morgan, brawd i dad-cu Cynog, a ymfudodd yno yn 1881. Diolchwyd i Llinos am brynghawn diddorol iawn, a mwynhawyd paned o de ar y diwedd wedi ei baratoi gan Myfanwy Rowlands a Mai Leeding.



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Gallen ni ddim fod wedi dewis gwelw noson, o ran tywydd, i fynd ar ein gwibdaith i Aberteifi ar Nos Iau, 10 Medi. Roedd y golygfeydd ar y daith hyd arfordir Ceredigion yn wych yn yr haul ddiwedd y prawn.

Castell Aberteifi oedd ein cyrchfan gyntaf a chawsom dywysydd ardderchog yn Jeremy Jones. Roedd ei wybodaeth hanesyddol ar flaenau ei fysedd wrth iddo adrodd nifer o ffeithiau ac anecdodau hynod o ddiddorol yn ymwneud â'r lle.

Roedd gweld datblygiad a gweddwediad yr adeilad a'r amgylchedd yn agoriad llygaid i bob un.

Yna ymlaen yr aethom am swper yng ngwesty'r Cliff, Gwbert gan fwynhau clonc dros bryd o fwyd hynod o flasus cyn troi am adre.

Mawr yw ein diolch i Stephen Evans ein gyrrwr gofalus ac i Elizabeth, Megan a Fal am drefnu'r wibdaith.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Nos Lun, 19 Hydref pan y byddwn yn croesawu Chris Lockley atom i drafod thema 'Dwr' mewn cerddoriaeth.

Mi fuasai'n braf iawn cael croesawu aelodau newydd atom, beth amdani ferched?

FJ

2015

Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

16eg o Hydref

Drysau yn agor am 7.00
Dechrau am 7.30

Arweinydd y noson
Cen Llwyd

Neuadd Felin-fach

Mynediad £3

Beirniaid
Trefor Pugh a
Donald Morgan

Y TINCER

Y Barcud
y Garthen
Y Dwrgrig
yr Angor
Llais Aeron
CLONC
Y DOLLEN
Y Gambo
Papur Pawb

O'r Llwyfan

Dweud Jôc

Sgets, gyda dim mwy na chwech mewn nifer yn y grŵp, i bara dim mwy na phum munud. Testun - Etholiad

Sgên ti Dolent
I gyflwynu cerdded a rhwydwr...
Cân Actol i bari
- dehongliad yn seiliedig ar llythyr ar dair hwiangerdd a.e. Mi Welais Jac y Do

Cystadleueth Dweud Stori a Gweud Stumiau/Synau i Bâr Ceir y stori ar y noson

Dyfarfwr marciau ymhob cystadleueth o 5 i'r enillydd, 3 i'r sawl ôdau yn ail ac 1 i'r trydydd.

Cyflwynwyr tws wedi ei noddi gan y Lolfa i'r papur bro sydd â'r cyfanswm uchaf o farciau ar ddiwedd y cystadlu

Gwaith Cartref

Ar gyfer plant oed cynradd - Pristio cymeriad cyfoes

Ar gyfer dysgwyr - Erthygl ddyfyr ar gyfer papur bro dim mwy na 300 o eiriau

Ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd ac o dan 19 oed - Erthygl diddorol ar gyfer papur bro dim mwy na 300 o eiriau

Llunio brawddeg, gyda'r geiriau yn eu tro yn cychwyn gyda'r llythrennau - LL-A-NN-D-E-L-Y-N

Gorffen llinnig - Mae Cen yn maddwl mynd leni

Creu carden cyfarch ar gyfer unrhyw achlysur

Creu poster A4 ar gyfer Ffair Nacollig

Cefnogwch eich papur bro!

Anfonwch eich gwaith cartref (o dan ffenget, gyda manylion cyswllt ac enw papur bro mewn anlen wedi atodi) erbyn y Bed Hydrefat:

David Greaney, 4 Tŷ Mawr
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3RF

parhad o tud 1

Cyfle olaf i achub Ysgol Llangynfelyn!

gyflwyno a dewis tystiolaeth sydd yn cefnogi'r penderfyniad hyn. Rydym yn ddiolchgar i Ellen ap Gwynn am siarad o blaid yr ysgol yn y Cabinet, ond mae gwendidau yn y system o ran craffu."

Os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad, mae gennych un cyfle olaf i leisio'ch barn. Po fwyaf o wrthwynebiadau sydd y mwyaf o siawns o arbed yr ysgol.

Mae'n rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau erbyn y 18fed o Hydref.

Gallwch wneud hyn drwy e-bostio:

adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk

Hefyd mae cerdyn post wedi'u paratoi i chi lenwi'ch enw a chyfeiriad ar gael yn Siop Cynfelyn ac wedi'u dosbarthu i drigolion Llangynfelyn.

Gallwch weld pob dogfen hyd yn hyn trwy ymweld â <http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswylwr/Ysgolion-Addysg/Cynllunio-Ddarpariaeth-Addysg/Pages/default.aspx>



Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Guener
(01970) 832 674



Afiath
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiath@aol.com



STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi
Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ



BWYD DA... CWMNI DA...
yBlac
TAL-Y-BONT
BWYTY A BAR
CINO 12.00 - 2.30 SWPER NOS 6.00 - 9.00
CINO SUL 12.00 - 3.00
AM FWY O FANYLION, BWYDLENNI A CHYNGION
EWCH I'N GWEFAN - yblac.co.uk
Gwelwch chi'n fuan... Cofion Siân, Catrin a'r tîm
01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

Pencampwr Rhyngwladol



Bu Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont a'i gi Moss, yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol, a gynhaliwyd yn Moffat yn yr Alban ar 12 Medi.

Cafodd Dewi'r ci bach yn rhodd annisgwyl gan y 'guru' cŵn defaid, Dai Jones, Llanilar a'i ysbrydolodd i ddechrau cystadlu o ddifri.

"Mae Moss yn gi arbennig," meddai Dewi. "Mae'n rhedwr naturiol ac yn gi o safon eithriadol."

Magwyd ef gan Colin Gordon ac mae ei dad o linach Gwyddelig wedi ei fagu gan A.J. Corrigan. Roedd 15 o siroedd Cymru'n cystadlu am le yn y bencampwriaeth lle daeth Dewi'n fuddigol. Ar ôl brwydro trwy glaw trwm, dyfarnwyd Dewi yn gyntaf yn y dosbarth iau gan curo timau o Loegr, Alban ac Iwerddon. Derbyniodd Dewi blât arian, cw b ci, sachiad o fwd cŵn a myg y Gymdeithas fel gwobr.

Celf Taliesin

Cynhaliwyd yr Arddangosfa Flynyddol o Grŵp Celf Taliesin ar Ddydd Sadwrn 3ydd o Dachwedd. Daeth nifer dda o aelodau'r gymdeithas ynghyd yn Llanfach er mwyn arddangos eu gwaith, i gymdeithasu ac i ddenu aelodau newydd.

Yn ol un o'r aelodau, Jill Roberts, grŵp o bobl sy'n

mwynhau celf yw'r clwb. Does dim rhaid i chi fod yn arbenigwr yn y maes i ymuno â'r clwb sy'n cyfarfod yn Llanfach bob nos Iau rhwng 6.15 a 9pm.

Mae'r sesiynau yn dilyn themau sy'n newid am yn ail fis, ond mae hefyd rhwydd hynt i'r aelodau i ddilyn eu diddordebau ac i ddefnyddio pa bynnag dechneg o'u dewis. Mae'r grŵp yn aml yn manteisio ar dywydd ffafriol ac yn creu yn yr awyr agored. Estynnir gwahoddiad i siaradwyr gwadd yn flynyddol megis Michael Laxton a Stephanie Mansell a arweiniodd sesiynau eleni ar baentio heb frwshys ac roedd esiamplau o'r gwaith a gynhyrchwyd i'w weld yn yr arddangosfa yn ogystal a gweithiau eraill oedd ar werth am brisiau rhesymol iawn.

Meddai un o'r aelodau, Jill Roberts "Rydym ni'n griw cymdeithasol sydd wrth ein boddau yn croesawu aelodau newydd. Does dim disgwyliadau."

Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r clwb am £1 y tro am y 4 sesiwn cyntaf. Os ydy'r clwb at eich dant bydd y £4 yn cael ei dynnu oddiar yr aelodaeth flynyddol o £36.



Tair o aelodau Grŵp Celf Taliesin ar ddiwrnod yr Arddangosfa Flynyddol, Gerti Morton, Ann Mitchell a Jill Roberts.

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd y chwarter diwethaf.

Meddygfydd Borth yn y Neuadd Goffa

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda'r feddygfa sawl gwaith, a bod rheolydd y feddygfa wedi dweud ei bod hi'n aros i'r bwrdd iechyd gysylltu yn ôl i gadarnhau. At hyn, adroddodd y Clerc fod Sam Dentten o Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda wedi cysylltu i ofyn am unrhyw wybodaeth neu farn o'r cyhoedd ynglŷn â'r mater. Cyflwynodd y Cyngorydd Nest Jenkins deiseb o enwau a gasglwyd gan Spar Tal-y-bont yn gofyn os hoffai'r gymuned meddygfa yn y Neuadd Goffa. Cytunwyd i ysgrifennu yn ôl at Sam Dentten, gan hefyd gyflwyno'r ddeiseb.

Tyllau yn y Ffordd

Adroddodd y Clerc ei bod hi wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r materion amrywiol. Adroddodd y Clerc fod y gwaith ar y groesffordd ger y trac tua Llety Ifan Hen, Bont-goch, yn ogystal â'r ffordd tua Llety Ifan Hen wedi'u gwblhau. At hyn, adroddodd y Clerc fod archwiliad o ffordd Gwm Ceulan hefyd ar y gweill, a bod y gwaith ar dyllau ffordd rhwng Eurfan a'r troad i Blas Penpompren, yn ogystal â rhwng Cwm-slaidd a Penysarn ar amserlen gwaith y Cyngor Sir dros yr wythnosau nesaf.

Adroddiadau Ariannol

Cyflwynodd y Clerc adroddiad ariannol i'r Cyngor. At hyn, adroddodd y Clerc fod Swyddfa Archwiliadau BDO wedi derbyn cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2014/15. Derbyniwyd yr adroddiadau yma gan y Cyngor.

Ffordd Peryglus (ger Maesnewydd)

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda'r Cyngor Sir. Ymatebodd yr Adran Eiddo, Priffyrdd, a Gwaith bod rhywun wedi ymweld â'r ardal, ond wedi methu gweld problem. Cytunodd yr Adran i ail-edrych ar y safle ac iddynt gysylltu gyda'r Cyngorydd David Evans ar yr hewl er mwyn iddo allu dangos y broblem iddynt

Gwaith ar Llwybr y Felin

Adroddodd y Clerc fod y John Deans o'r Cyngor Sir wedi cysylltu i ddweud bod y gwaith wedi'i gwblhau.

Biniau Halen Glanrafon

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda'r Cyngor Sir i'w atgoffa i gynnwys bin halen Glanrafon yn ei archwiliad o finiau halen yr ardal gan fod angen un newydd yno cyn y gaef. Ymatebodd y Cyngor Sir y bydd yr archwilwyr yn ymweld â hi cyn hir.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Mae tranc ffoaduriaid o Syria a gwledydd eraill wedi bod yn amlwg yn y newyddion. Mae'n destun balchder i mi fod pobl Ceredigion eisoes yn trefnu casgliadau ac yn codi ymwybyddiaeth trwy ddigwyddiadau. Cefais gyfle i annerch cyfarfod y grŵp newydd 'AberAid' ar prom Aberystwyth, gan hefyd drosglwyddo'r neges yn ôl i Lywodraeth Cymru fod angen cynllunio i gynnig cymorth dyngarol. Daeth mater y ffoaduriaid yn bwnc trafod hefyd mewn cyfarfod o Sefydliad y Merched y bum yn ei annerch ym Mydroilyn. 'Merched mewn gwleidyddiaeth' oedd testun cychwynnol y sgwrs, ond fe aeth hi'n drafodaeth fywiog o sawl pwnc – o Syria i'r Alban a thu hwnt!



Rwy' hefyd wedi bod yn llafar wrth gefnogi'r syniad o'r Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i Geredigion yn 2020. Mae hi wedi bod llawer yn rhy hir ers y dair brifwyl lwyddiannus yn 1976 (Aber-teifi), 1984 (Llambod) ac 1992 (Aberystwyth) a gobeithio y medrir cynnig gwahoddiad y tro hwn. Mae diwylliant eisteddfodol Ceredigion yn gryf. Gwelais hynny yn glir iawn wrth fynychu eisteddfod Cwmystwyth – y cyntaf a gynhaliwyd yn y fro ers blynyddoedd lawer, a theyrnged gwych i waith Merêd.

Yn y Cynulliad, mae dipyn o ffocws ar hyn o bryd ar faterion iechyd – pwnc yr wyf yn llefarydd drosti. Rwy' eisoes wedi cyhoeddi nifer o syniadau ar gyfer gwelliannau sydd mor angenrheidiol i'n gwasanaeth iechyd; recriwtio mwy o feddygon a staff, sicrhau diagnosis gyflymach, ac integreiddio llawn rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Rwy'n edrych mlaen i drafod rhain yng Nghynhadledd Plaid Cymru a fydd eleni yn dychwelyd i Aberystwyth. Ac eleni mae gennym ymwelydd nodedig iawn sef Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban. Bydd yn fraint ac yn bleser ei chroesawu i Geredigion.

Bistro
Gannets

Bywd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 **www.davmorgarej.co.uk**



Cylch Meithrin Tal-y-bont

Ffarwel i Anti Shân

Ffarweliwyd â Shân Evans ar 17 Medi wedi blynyddoedd o wasanaeth yn y Cylch Meithrin ar Ysgol. Cynhaliwyd parti ffarwel iddi a braf oedd gweld cymaint wedi dod i ddymuno'n dda iddi. Roedd yn fore emosiynol wrth i bawb hel atgofion a gwerthfawrogi ei gwaith di-flino dros yr holl flynyddoedd. Cawsom ein diddanu gan blant yr ysgol yn perfformio cân o ddiolch i Anti Shân cyn gwledda ar yr holl ddanteithion wnaeth rhieni plant y Cylch gyfrannu. Cyflwynwyd llun iddi ac mae diolch yn mynd i Vernon Jones, Bow Street a luniodd englynion er ei chyfer sy'n crisialu'r dechreuad arbennig a gafodd sawl plentyn dan ei gofal.

Anti Shân

Rhodes ofal a rhoes afiaith – i rai bach
gorau'r byd sawl canwaith,
gam wrth gam yn ein mamiaith
ac yn sicrhau dechrau'r daith.

I'r hen blant hi oedd Anti – Shân annwyl,
cyson iawn bu wrthi
yn eu meithrin hwy inni
â'i gofal dihafal hi.

Arweinydd a'i chyfrinach -yn y mwyn
amynedd dirwgnach,
a fu oriau difyrtrach
yn Nhal-y-Bont i deulu bach?

VJ

Diolch i'r sawl un wnaeth paratoi ar gyfer y parti o flaen llaw ac am weini yn ystod y parti. Diolch i'r rhieni wnaeth gyfrannu cacennau ar gyfer y parti. Dymunwn yn dda i ti Anti Shân yn dy swydd newydd – paid a bod yn ddiethr!

Arweinyddion newydd

Dymunwn longyfarch Karren Roberts a Lynwen James yn eu swyddi newydd fel Cyd- Arweinyddion Cylch Meithrin Tal-y-bont. Dymunwn yn dda i'r ddwy yn eu rôl newydd a phob lwc i'r dyfodol.

Parti Calan Gaeaf

Bydd y Cylch Meithrin yn cynnal Parti Calan Gaeaf yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar nos Sadwrn, 31 Hydref rhwng 5.30 ac 8 o'r gloch. Bydd yna fwyd, diod, raffl, twba lwcus ynghyd â'r cystadleuthau poblogaidd o'r wisg ffansi orau ar bwmpen orau. Dewch yn llu i gefnogi!



Taith Flynyddol Capel Rehoboth

Cafwyd diwrnod llawn a diddorol ar ddydd Sadwrn, 12 Medi, pan ymwelwyd ag ardal Waldo Williams yn sir Benfro a chael ein tywys o amgylch y sir gan Alun Ifans, awdur y gyfrol *Swyn Sir Benfro*. Cofeb Waldo ym Mynachlog-ddu oedd y man cychwyn, ac yno cafwyd darlenniad o'r gerdd 'Preseli' gan Bob. Wrth deithio tuar Efailwen i gael paned o goffi yng Nghaffi Beca, arhoswyd ger capel Bethel i weld bedd Twm Carnabwth, un o arweinyddion Merched Beca, ac yn Efailwen gwelwyd y plac i nodi'r fan lle dinistriwyd y tollborth gan Ferched Beca ar 13 Mai 1839. Aethom heibio Elm Cottage, cartref Waldo yn Llandysilio, cyn cael ein tywys i'r ddau gae, Parc y Blawd a Weun Parc y Blawd, lle'r arferai Waldo a'i rieni ymgynnull ac i eistedd o dan y goeden dderwen. Cafwyd darlenniad o 'Mewn Dau Gae' gan Dilwyn. Roedd perchennog y ddau gae, Vernon fferm y Cross, yno gyda ni a rhannodd nifer o'i atgofion ef am Waldo. Ar ôl arnos wrth Rhosaeron, cartref teuluol Waldo, aed ymlaen i Gapel Blaenconin lle cafwyd croeso gan y gweinidog, Huw George, a seibiant i fwyta ein cinio yn y festri. Ym mynwent y capel hwnnw y claddwyd Waldo yn ymyl ei deulu yn 1971, ac wrth sefyll wrth y bedd cafwyd munud o dawelwch ac yna ddarlenniad o 'Y Tangnefeddwyr' gan Wyn. Teithiwyd wedyn i Gapel Millin lle'r oedd Waldo ar un adeg yn hoff o fwrwr nos er mwyn medru mynd yn gynnar drannoeth i weld y wawr yn torri ger y dderwen gam ac afon Cleddau-ddu gerllaw. Yma darllenwyd y gerdd 'Cofio' gan Wyn. Tŷ Cwrdd y Crynwyr yn Aberdaugleddau oedd y lle nesaf i ymweld ag ef, ac yma eto cafwyd rhagor o atgofion am Waldo gan un a oedd yn ei adnabod. Cafwyd croeso arbennig yn y Tŷ Cwrdd, ynghyd â phaned o de a bisgedi hyfryd. Oddi yno aethom ymlaen i Hwlfordd i weld y plac sydd tu allan i Archifdy Sir Benfro sy'n nodi mai yn Nhŷ'r Ysgol Prendergast y ganwyd Waldo yn 1904 – y tŷ ar ysgol wedi eu dymchwel, ar Archifdy'n sefyll ar y safle bellach. Erbyn hynny, roedd yn bryd teithio i westy Allt yr Afon yng Nghas-blaidd i fwynhau pryd o fwyd ardderchog. Ond nid oedd gweithgareddau'r diwrnod ar ben, a gyda golau'r dydd yn gwanhau, aethpwyd i olwg Gweun Cas-mael ac yno darllenodd Brian y gerdd i'r Weun. Gwelwyd hen ysgol Cas-mael lle bu Waldo'n brifathro, a hefyd y plac i Evan Rees (Dyfed), y cyn-Archdderwydd, ar sgwâr y pentref. Wedi hynny, ffarweliwyd ag Alun Ifans, a rhaid diolch yn fawr iddo am ddiwrnod addysgol ac arbennig iawn yn sir Benfro, diwrnod a fydd yn aros yn hir yn y cof. Diolch hefyd i Brian a Mai am drefnu'r daith, ac i Brian am yrru'r bws.

Cynhaeaf y Cledd

Perfformir cynhyrchiad newydd cwmni'r Morlan, *Cynhaeaf y Cledd: Aberystwyth Tachwedd 1918*, ar nosweithiau Sul a Lluon 8-9 Tachwedd yn y Morlan, Aberystwyth.

Mae cysylltiadau lleol i'r cynhyrchiad gan mai Gwyn Jenkins yw awdur y sgript a Geraint Evans yw'r cyfarwyddwr. Mae'r sgript yn seiliedig ar yr ymchwil a wnaed gan Gwyn ar gyfer ei gyfrol *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* ond mae'n canolbwyntio'n benodol ar brofiadau rhai o drigolion Aberystwyth yn ystod cyfnod y Rhyfel Mawr.

Mae'r cyfan ar ffurf cyflwyniad dramatig wedi'i leoli yn Aberystwyth ar ddiwrnod olaf y rhyfel yn Nhachwedd 1918 gan geisio adlewyrchu safbwyntiau ac agweddau gwahanol y cyfnod. Yn ystod y cyflwyniad bydd dau gymeriad dychmygol yn cwrdd â nifer o gymeriadau go iawn a oedd yn byw yn y dre ar y pryd, gan gynnwys T Gwynn Jones, y Parch R J Rees a meddyg lleol, Dr T D Harries. Bydd hefyd elfen o gerddoriaeth yn dyddio o'r cyfnod.

Teyrnged

John Rowlands 1937-2015

Mab cyntaf-anedig Hugh Richard a Jane Ann Rowlands oedd John, a aned ar Fehefin y 15fed 1937. Wedi treulio'i ddyddiau cyntaf ym Mrynafon, Corris, ymgartrefodd ar aelwyd y Cilgwyn, Llanwrin. Buan y daeth yn frawd mawr i'r efeiliaid Mair ac Iola ac yna i Hugh-Owen. Yn dilyn cyfnod yn Ysgol Llanwrin, symudodd y teulu i fferm Caeau Madog ym Mhennal. Cartref ac ardal a fu'n le annwyl iawn iddo ar hyd ei oes. Byddai'n adrodd straeon niferus am ei ddyddiau yn Ysgol Pennal ac yn ddiweddarach am yr Ysgol Uwchradd yn Nhywyn a chymeriadau Bro Dysynni ei arddegau.

Ym 1950 mudodd y teulu i'r ochr draw i'r Ddyfi, gan ymgartrefu yn Hen Hafod. Yn dilyn profedigaeth drom yn gymharol ifanc, sef colli'i dad yn saith ar hugain mlwydd oed ym 1964, mi wnaeth ymroi i weithio'n ddiplino ar waith y fferm a mawr fu ei ofal o'i fam hyd at ei dyddiau olaf.

Galwedigaeth yn hytrach na gwaith oedd amaethu i John. Ymddiddorai mewn creaduriaid a pheiriannau ac roedd y ddwy elfen hon o waith y fferm yn mynnu'r sylw dyledus ganddo. Coleg bywyd a choleg llawn profiadau byw gafodd John. Datblygu'i grefft drwy ymarfer a mireinio. Os oedd angen cyngor ymarferol ynglŷn â sut i wneud unrhyw dasg â llaw, dyma'r unig le oedd angen mynd – ond, efallai y byddai'n rhaid disgwyl pum munud bach cyn rhoi unrhyw gynllun ar waith. Roedd yna wastad amser am bandedd cyn dechrau arni, ac os oedd tebotiaid ar y bwrdd, gallai hynny droi'n ddeng munud neu'n chwarter awr yn hawdd!

Gallai ymddrin ag unrhyw anifail neu beiriant, a byddai wrth ei fodd yn trwsio injan neu'n ail-adeiladu ryw beiriant cywain gwair neu debyg. Roedd ganddo hoffter arbennig o'r ceffylau, ymddiddorai yn y cobiau a byddai'n mwynhau cael mynd at wahanol gymeriadau'r byd hwnnw i fenthyg march a thrafod llinach. Ond, parchai pob creadur a gwnai ei orau dros bob un.

Wedi blynyddoedd o fod yn Yncl John i'r plant, daeth tro ar fyd ac hapusrwydd newydd i'w ran pan y cyfarfu â Mona. Priododd y ddau ym 1977. Ymgartrefodd y ddau yn Hen Hafod gyda'i fam, ac ym 1980 ganed Catrin a phymtheg mis yn ddiweddarach fe aned Evan. Ef oedd y dderwen gadarn ei gwreiddiau a'i changhennau yn gysgod gwarchodol.

*“O'r dderwen wyf fesen fach
Mesen o un rymusach.”*

Ac mae'n siwr mai felly yr ystyria Catrin ac Evan eu hunain heddiw.

Symudodd y pedwar i fyw ym mhentref Glandyfi, gan wneud nifer o ffrindiau da yn y pentref bychan, clos hwn. Adnabyddai bawb yno grŵn y fan a'r patrwm gwaith saith diwrnod o godi'n fore a dychwelyd wedi godro'r hwyr, ac adref am ambell awr ar brynghawn Sul am ginio cyn dychwelyd at y godro eto.

Cysgodai Catrin ei thad pob cyfle posib gan fwynhau gwaith y fferm a'r trŵn a'r trafod anifeiliaid. Daeth Evan yntau i geisio ysgwyddo ac ysgafnhau baich corfforol ei dad pan yn ei arddegau a'i ugeiniau, tra'n dysgu sawl crefft ac arfer yr un pryd. Dysgai doreth o ymadroddion, dywediadau a hen benillion iddyn nhw'n blant, gan brofi iddo fwynhau a gwrando dipyn tra yn yr ysgol a byddai'n mwynhau pori drwy lyfrau!

Dychwelodd y teulu i fyw yn Hen Hafod yn 1993 gan ymestyn cyswllt John a'r cartref hwnnw i fod ond flwyddyn yn brin o drigain mlynedd.

Ni fentrau lawer i'r "ffordd fawr", chwedl yntau. Adref rhwng y clawdd llanw a'r afon Ddu oedd ei gynefin ac adnabu pob modfedd o'r fferm a'i natur hi, boed law neu hindda. Er na fentrau oddi cartref yn aml, ymddiddorai a gwnâi amser i'r bobl â alwai. Cawsai sgwrs â phawb, yn werthwyr bwyd, meddyginiaeth neu galch i'r tir, a daeth i adnabod nifer o'r ymwelwyr gwely a brechwast a ddychwelai yn ffyddlon i Hen Hafod ar hyd blynyddoedd lawer.

Roedd hi'n braf bod ambell un wedi dod i aros ar yr aelwyd ym Mrynhyfryd wedi hynny, yn dyst i'r croeso siriol a gawsai pawb ar ei aelwyd ef a Mona.

Gwerthfawrogi John gyfeillgarwch nifer o gyfeillion. Os oedd wedi mynd i grwydro, ni fyddai'n rhaid meddwl ddwywaith ble y byddai. Yn Nhanyffordd, yng nghanol hwyl, ffraethineb a chroeso teulu Tanyffordd a'r teulu estynedig yno megis Emyr a Sam. Cai fodd i fyw yno. Daeth yn



gyrchfan gyson ar ôl ymddeol, pan fyddai digon o amser i roi'r byd yn ei le. Yno byddai'n hel atgofion a straeon gydag Elwyn, potsian gydag ambell beiriant, benthyg hwn a'r llall neu gael mynd am sbin yn y lori i Fro Dysynni neu ymhellach yng nghwmni Dei neu John. Ond byddai hynny ar un amod, rhaid oedd iddo gadw un llygad ar y tywydd – rhag ofn bod angen brysio adre i hel dillad cyn i Mona gyrraedd nol o'r gwaith!

Ychydig iawn a feddyliodd y teulu pan ddechreuodd Mona waith yn gofalu am blant y byddai hynny'n esgor ar sawl cyfeillgarwch werthfawr. Llŷr a Holly oedd y ddau a ddaeth i ofal Mona, a daeth Llŷr a John yn bartners mawr. Cyfeillgarwch a ddechreuodd yn y traddodiad gwledig hwnnw o beidio categorio pobl yn sgil oed, gefndir neu waith ond drwy gyd-weithio a meithrin diddordebau ar y cyd. Y ffermio ddaeth yn gyntaf, a chafodd Llŷr, fel y plant, fwynhad o ganlyn John o amgylch yr iard ac ar hyd tir Hen Hafod.

Yr ail ran, oedd i John gael y cyfle i fwynhau hoffter Llŷr o drenau stêm wedi iddo ymddeol- ac fe gafwyd sawl antur ar hyd rheilffyrdd Cymru.

Yn dilyn ymddeol a symud i Frynhyfryd, canfu brysurddeb o fath newydd a chael mwynhau rhyddid y bys-pas. Roedd Evan wedi dychwelyd adref i fyw a byddai John yn mwynhau sgwrsio a thrin a thrafod gydag ef. Roedd Evan hefyd yn gallu cadw golwg ar Frynhyfryd a chydweithio o gwmpas y lle. Golygai hynny ambell wyliau yn Abertawe, ac roedd yn gyffyrddus iawn ei fyd yno. Byddai'n mwynhau sgwrs a'r cymdogion a throei ei law at ambell brosiect bach DIY. Roedd hefyd wrth ei fodd yn cael paned gyda ffrindiau Cat, a fyddai'n galw'n aml i'w weld o, er mwyn rhoi'r byd yn ei le, hyd yn oed pan nad oedd Catrin gartref!

Yr hyn sy'n braf yw meddwl na cholodd John ei annibyniaeth, na'i osgo lawen, fonheddig. Mae'n braf gwybod y medrodd ymwneud â'i hoff bethau o ymweld â theulu a chyfeillion hyd y diwedd.

Hyd at y diwedd bu John yn ddyd a welai daioni bob tro, fe oedd y cyntaf i rannu gair da ac esmwytho profiad caled: heddwch oedd yn ei enaid a'i sgwrs.

Fe hoffai Mona, Catrin ag Evan ddiolch o galon am yr holl gareidgrwydd a chydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod y brofedigaeth.

Hen afrwydd yn drwm ar Frynhyfryd ddaeth
I ddwyn tua'r gweryd
A'r baw holl firi bywyd,
Y bedd ddaw i chwalo byd.

Ond erys rhin y gwerinwr - a'i hwyl
Er galar, ein harwr
Yn gu fu'n annwylaf ŵr,
Ei hud oedd einioes gwladwr.

Ei hafau bery'n Hen Hafod - o hyd,
A Madog llencyndod
Yn erfyn cof diddarfod
O hwyl fu sy'n dal i fod.

Am ffrind ffraeth hiraethwn - ei wenau
Mor hynaws goffawn,
Tyner dad oedd y tad hwn,
Ei afiaith nis anghofiwn.

Canlyniadau Sioe Llangynfelyn

Llyisiau

3 Tatws

1 a 2 Mr R Spencer, Manchester House
3 Mrs H Hicks, Tŷ coch, Llangynfelyn

4 Sialots

1 Mr W Griffiths, Wenlyng
2 a 3 Mr R H Davies, Al Liorzh

3 Nionod

1 Mr R Spencer
2 C. Moss, Ynys Tachwedd
3 Mr W Griffiths

3 Moron

1 C. Moss
2 Mr W Griffiths

3 Betsys

1 Mr P Regan, Free Trade Hall
2 Mr W Griffiths
3 Mr R H Davies

3 Cennin

1 C. Moss
2 a 3 Mr R H Davies

4 Ffa Dringo

1 a 3 Mr R H Davies
2 Mr R Spencer

4 Ffa Frengig

1 Mr R H Davies
2 Mrs H Hicks
3 Mr P Regan

2 Ciwycybr

1 C. Moss
2 Mr W Griffiths
3 Mr R Spencer

4 Tomatos – fawr

1 a 2 Mr R H Davies
3 Ms G Jones, Blaenddol

3 Tshilis

1 a 3 Mr R H Davies
2 Suzanne Brookes, Lletyllwydin

3 Corbwmpenni

1 Jasmine Foster Leslie, Llyscynfelin
2 Mrs M Leeding, Glannant
3 Mrs S Sykes, Bryndyfi

2 Maros

1 a 2 Mr G Lewis, York House
3 Mr R H Davies

3 Panasen

1 Mr G Lewis
2 a 3 Mr R H Davies

Blwch/Hanbwrth o lysiau cymysg

1 Mrs H Hicks
2 Mr R H Davies
3 Suzanne Brookes



Mai Leeding gyda'i phlanbigyn ty.

Bwnsiaid o berlysiâu cymysg

1 Suzanne Brookes,
2 Mrs H Hicks
3 G Le Helleco

2 Corn Melys

1 Mr R Spencer

Y Ffa hiraf

1 Mr G Lewis
2 Mr R H Davies
3 Mr W Griffiths

Llysiuyn dishâp

1 Suzanne Brookes
2 Mr G Lewis

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran

Mr R H Davies

Arddangosfa orau yn yr adran

Mr R Spencer

Ffrwythau

3 Afal coginio

1 Mr G Lewis
2 Mr B Davies, Rhos
3 Mr P Regan

3 Afal pwddin

1 Mrs M Leeding
2 a 3 Mr R H Davies

6 Eirin Sbaen

1 a 2 Mr G Lewis
3 Mr B Davies

3 Coesyn Riwbob

1 Mr R Spencer
2 Ann Mitchell, Gwynfryn Lodge
3 Mr P Fleming, Pen y Graig

3 Gellyg

1 Mr N Callaghan, Hafan
2 Mrs A Bond, Brodawel
3 Mr P Regan

Ffrwythau meddal cymysg ar blât bach

1 Jasmine Foster Leslie,
2 A Mitchell
3 G Le Helloco

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran

Mr G Lewis

Arddangosfa orau yn yr adran

Mr G Lewis

Cyfeithau

Jar o jam

1 a 2 Mrs J Regan, Free Trade Hall
3 Mrs V Walsh, Plas Penrhyn

Jar o jeli frwyth

1 Mrs Beti Wyn Davies, Rhos
2 Mrs L Spencer, Manchester House
3 Mrs H Hicks

Jar o Sytni

1 Mrs Moreen Evans, Halfway
2 a 3 Mrs H Hicks

Jar o Farmalade

1 Mrs Beti Wyn Davies,
2 Mrs V Walsh
3 Mrs H Hicks

Jar o geuled ffrwythau

1 Mrs H Hicks
2 a 3 Suzanne Brookes

Jar o Bicl

1 Mr R H Davies
2 Mrs L Spencer

Jar o gyfaith angyffredin

1 Mr R H Davies
2 Mrs H Hicks
3 Mrs J Regan

Jar o jeli perlysiâu

1 a 2 Mrs S Lewis, York House

Jar o jam (dosbarth dechreuwyd sydd heb ennill gwobr o'r blaen)

1 Mrs M Fleming, Pen y Graig
2 a 3 Mrs H Hicks

Botel o gordial

1 a 2 Mr R H Davies
3 Mrs S Lewis

Gwirod ffrwyth

1 a 2 Mrs S Lewis
3 Mrs M Fleming

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran

Mrs H Hicks

Coginio

Cacen Fictoria

1 Miss M James, 4 Maes Clettwr,
2 Mrs Kath Jones, Gerynant
3 Mrs V Walsh

Fy hoff gacen

1 Mrs Kath Jones
2 Mrs G Griffiths
Miss M James

Cacen spwng wedi ei addurno

1 Mrs G Griffiths
2 a 3 Miss M James

Bara Brith

1 G Le Helloco
2 a 3 Miss M James

Cacen foron gyda eisin

1 Mrs Sue Lewis, Maesgwyn
2 Mrs G Griffiths
3 Mrs M Leeding

2 basti sawrus

1 a 2 Mrs B W Davies
3 Mrs S Lewis

4 Rôl bara (gwyn neu frown)

1 Jessica Adams
2 Mrs B W Davies
3 Mr W Griffiths

4 Pice ar y maen

1 Miss M James
2 Mrs M Fleming
3 Miss M James

Bara wedi ei flasau

1 Mr W Griffiths
2 Mrs B W Davies
3 Mrs S Lewis

5 Bisced

1 a 2 Mrs G Griffiths
3 Miss M James

3 Sgôn

1 Mrs B W Davies
2 Mrs M Fleming

Cacen I ddynion yn unig- cacen sudd lemon

1 Mr Huw Lewis, Maesgwyn
2 Mr W Griffiths
3 Mr G Lewis

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran

Miss M James

Arddangosfa orau yn yr adran

Miss M James

Cynnyrch Fferm

3 Wyau brown

Mrs G Jones
Mrs M Fleming



3 Wyau gwyn

1 a 2 Mrs G Jones

3 Wyau arlliwiedig

1 Iwan Foster Leslie, Lluscynfelin
2 Mr R H Davies
3 Mrs G Jones

3 Wŷ o wahanol liw

Mrs M Fleming
Ann Mitchell
Mrs G Jones

Disgyl fach o Baté

1 a 2 Mr G Lewis
3 Mrs B W Davies

Botel o Fêl clir

1 Mr R Spencer
2 Mitchell
3 Mr P Regan

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran

Ms G Jones

Blodau

5 Coesyn unigol (cymysg)

1 Mrs J Regan
2 a 3 Ms G Le Helloco

3 coesyn unigol (yr un math o flodyn)

1 Mrs C Gilbert, Swyn y Nant
2 Mrs B W Davies
3 Mrs J Regan

Planhigyn tŷ mewn pot (y deiliant)

1 Mrs M Leeding
2 Jasmine Foster Leslie
3 Mrs J Nowak, Banc Y Deri

Planhigyn tŷ mewn pot (un ei flodau)

1 Mrs M Leeding
2 Ms G Le Helloco
3 Jasmine Foster Leslie

Cactws neu blanhigyn syddlon mewn pot

1 Jasmine Foster Leslie
2 a 3 Iwan Foster Leslie

Potyn neu bocs ffenestr wedi ei blannu

1 a 2 Mrs M Fleming

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran

Ar y cyd - Mrs M Leeding a
Jasmine Foster Leslie

Celf Flodau/Floral art Trefniant Gwyrdd a Gwyn 12"x12"

1 Mrs C Gilbert
2 Mrs B W Davies
3 Mrs C Gilbert

Trefniant mewn gwyrdd gyda coes

1 Ffion Hicks, Tŷ Coch
2 Mrs C Gilbert
3 Mrs B W Davies

Addurniad o flodau sychion mewn jwg

1 a 2 Mrs B W Davies
3 Ann Mitchell

Dosbarth dechreuwr Trefniant mewn tebot

1 Mrs G Griffiths
2 Miss F Hicks
3 Mrs M Fleming

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran

Mrs B W Davies

Arddangosfa orau yn yr adran

Miss Ffion Hicks

Yr adran blant/Children's class 4 Cacennau Graig (Ysgol Gynradd)

1 Iwan Foster Leslie

4 Cacennau Graig (Ysgol Uwchradd)

1 Ffion Hicks
2 Becca Fflur, 12 Dol Pistyll

Gemwaith bwyttadwy (Ysgol Gynradd)

1 Dylan Kerridge
2 Noah Berry, Tyn y Garth,
Ffwrnais
3 Becca Fflur

Pot blodau wedi ei addurno (Ysgol Gynradd)

1 Iwan Foster Leslie
2 Becca Fflur

Llawysgrifen, pennill o hwiangerdd (Ysgol Gynradd)

1 Ava Lewis
2 Violet Jordan
3 Tilly Heathfield

Llawysgrifen, pennill o hwiangerdd (Ysgol Uwchradd)

1 Heledd Davies
2 Ruby Indeka, Llwynderi
3 Ffion Hicks

Llawysgrifen, pennill o hwiangerdd (wedi ei gwneud adref)

1 a 2 Becca Fflur
3 Sky Falvey

Cerdyn cyfarch (oedran 7-11)

1 Fin Langley
2 Dylan Kerridge
3 Poppy Roberts

Cerdyn cyfarch (oedran 7-11, wedi ei gwneud adref))

1 Iwan Foster Leslie
2 Heledd Davies
3 Poppy Kerridge

Creadur llyisiau (Ysgol Gynradd)

1 Iwan Foster Leslie
2 Kate Indeka
3 Arthur Hodgson, Dolblodau a
Jasmine Berry



Richard Spencer gyda'i nionod buddugol

Bwgan Brain

Thema: Cymeriad o Hwiangerdd

1 Grŵp Celf Taliesin Art group
2 Ann Mitchell,
3 Mrs G Griffiths

Crefftau

Sgarff

1 Mrs Joan Brown, Hayfields
2 Mrs Anwen Haynes, Y Bwthyn
3 Mrs Kath Jones

Blanced penglin wedi Crosio

1 a 2 Mrs Anwen Haynes
3 Mrs Beti Foulkes, Rhosawel

Stopiwr drws

1 Mrs Beti W Davies
2 Mrs Jan Nowak
3 Mrs Sylvia Cartwright

Carden cyfarch

1 Jasmine Foster Leslie
2 Mrs Beti W Davies
3 Mrs Judith Pearson

Eitem o emwaith

1 a 3 Mrs Joan Brown
2 Mrs Beti W Davies

Addurn coeden Nadolig

Mrs Josie Smith, Dyfi Villa
Ms Jane Pugh, Glanrhyd
Mrs Beti W Davies

Teclyn I ddal kannwyll

1 a 2 Mr David Ware, Halfway
3 Mrs Beti W Davies

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran

Mrs Beti W Davies

Arddangosfa orau yn yr adran

Mrs Beti W Davies

Ffotograffiaeth

Golygfa o'r plwyf (lliw)

1 Mrs J Regan
2 Mrs P Byrne, Deri Cottage
3 Mrs S Lewis

Bywyd gwyllt (lliw)

1 Mrs S Sykes
2 a 3 Mr Richard Spencer
3 Ms Suzanne Brooks

Sied (du a gwyn)

1 Mr Jake Lewis, York Youse
2 Mrs Beti W Davies
3 Ms Suzanne Brooks

Adran Blant o dan oedran 16 Tegan (lliw)

1 Elinor Davies
2 Becca Fflur
3 Heledd Medi Davies

Y Tywydd (lliw)

1 Heledd Medi Davies
2 Ffion Hicks
3 Becca Fflur

Arddangosfa orau yn yr adran

Mrs S Sykes



CFFI Tal-y-bont

Dyma ni! Dechrau blwyddyn newydd yng nghalendr y Ffermwyr Ifanc yng Ngheredigion, a Thal-y-bont yn prysur fwrw ati a hithau yn flwyddyn mor bwysig yn hanes y clwb.

Tra bod golygyddion Papur Pawb yn gorffwys dros fisoedd braf yr Haf bu aelodau'r clwb yn brysur dros ben. Ar ôl llwyddiant Rali Llanddewi Brefi (Ahoi Tal-y-bont!) bu rhai o'r aelodau'n cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd ac ar ôl llenwi ei gabinet gyda thlysau'r Rali, aeth Dewi Jenkins, Tyngraig, ymlaen i farnu stoc yng nghystadleuaeth y defaid Beltex a'r gwartheg Charollais. Daeth Dewi fel unigolyn yn drydydd a thîm Ceredigion yn dod i'r brig. Ar y llwyfan cneifio bu Steffan Rhys Nutting yn cystadlu yng nghystadleuaeth y trin gwlan gan ennill y pumed safle. Ddim yn rhy ddrwg o ystyried bod pencampwr y byd yn cystadlu yn ei erbyn.

Gyda phob blwyddyn newydd daw swyddogion newydd i geisio llywio'r clwb tuag at lwyddiannau newydd. Yn rheoli'r haid o aelodau am y flwyddyn mae ein Cadeirydd Rhys 'Cochyn' Richards, Clap y Cripiau. Gyda'i ysgrifennydd blaenllaw wrth ei ochr, Rhydian Evans, Neuaddfawr, a Steffan Rhys Nutting, Tŷ Hen Henllys, y trysorydd fydd yn cadw trefn ar yr adran gyllid.

Wrth yrru pasio'r Blac ar ddiwedd mis Awst mae'n rhaid eich bod wedi sylwi ar yr adeiledd anghyffredin oedd yn tynnu sylw'r sawl a phasiodd heibio. Bu'n fis prysur iawn i'r aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau'r clwb gan eu bod yn trefnu uchafbwynt calendr y clwb erbyn hyn, sef y Cneifio Cyflym. Ni welwyd cymaint o dorf o flaen y tafarndai ers oes Ffair y Patsyn Glas, ac roedd y Patsyn dan ei sang gyda chneifwyr a chynulleidfau yn dod o bob cwr o Gymru er mwyn bod yn rhan o'r digwyddiad.

Gwelwyd 80 o gneifwyr yn cystadlu am deitl 'Cneifiwr Cyflymaf Tal-y-bont 2015' gydag aelod lleol yn dod i'r brig mewn dwy adran. Llwyddodd Gwion Evans, Tanllan i ddwyn y wobr gyntaf yn adran y 'Juniors' a'r 'Intermediate'. Daeth y prif ffeinal lawr i drwch blewyn gyda nifer yn gofyn am weld y dystiolaeth fideo er mwyn penderfynu pwy oedd wedi mynd â hi. Gareth Daniels o dîm cenedlaethol cneifio Cymru oedd yn fuddugol y flwyddyn yma. Hoffai'r clwb ddiolch yn fawr iawn i holl noddwyr y gystadleuaeth, i'r gynulleidfau am greu awyrgylch wefreiddiol ac i'r aelodau ac i deulu ehangach y clwb a fu'n trefnu er mwyn sicrhau digwyddiad Cymraeg llwyddiannus, ac yn noson i'w chofio!

Hoffai'r clwb longyfarch dau gyn-aelod ar eu priodasau yn ddiweddar. Yn gyntaf, priododd Elgan Evans, Tynant, a Siwan Hâf, ac yna Eleri 'Cwmudw' James a Owen Jewell. Llongyfarchiadau hefyd i Geraint Jenkins, Cerrigcaranau ac Eleri Marshalsay ar ei dyweddiad, a phob lwc i Sion Fagwyr a Catrin Jenkins, Ynyseidol a fydd yn priodi ar yr ail ar bymtheg o'r mis yma.

Mae gennym raglen lawn ar gyfer y flwyddyn, heb anghofio mai ni sy'n cynnal Rali CFFI Ceredigion 2016. Croesawn unrhyw un sydd eisiau bod yn aelod o'r clwb ac o fudiad ffantastig. Rydym dal i fod yn cwrdd ar Nos Fawrth am 8 o'r gloch yn y Neuadd Goffa.

Os am fwy o wybodaeth ynglŷn â digwyddiadau'r clwb cysylltwch ag un o'r swyddogion:

- Cadeirydd: Rhys Richards (07972916131)
- Ysgrifennydd: Rhydian Evans (07709851213)
- Trysorydd: Steffan Rhys Nutting (07949377877)

neu ewch i'n tudalen *Facebook* i ymuno a'r grŵp - **CFFI Tal-y-bont YFC** - er mwyn gweld yr holl fwrwm a'r hanesion diweddaraf.

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Ysgol Tal-y-bont

Anti Shân

Gyda llawer o siom a thristwch y gwnaethom ffarwelio gyda Mrs Shân Evans cyn diwedd mis Medi. Bu Anti Shân yn gweithio gyda ni yn yr ysgol ers dros 13 mlynedd ac rydym yn siŵr y bydd Ysgol Tal-y-bont yn lle gwahanol iawn hebddi. Mae wedi cynnal safon uchel yn ei gwaith ar hyd y blynyddoedd ac fe fyddwn yn gweld colli ei chwmmiaeth yn fawr hefyd.

Rydym yn dymuno'r gorau iddi yn ei swydd newydd gan obeithio'n fawr y gwelwn ni hi yn cefnogi gweithgareddau'r ysgol eto yn y dyfodol.

Ysgol Eco

Mae'r ysgol wedi parhau gyda'r gwaith da o godi ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol dros y mis. Yn dilyn y gweithdai gwych gyda'r bardd Eurig Salisbury a'r artist Judy Macklin yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda'r prosiect Cymerau, mae'r gwaith yn parhau gyda chwmni pypedau Vagabondi'n cynnal gweithdai difyr a chyffrous gyda dosbarth Miss Morris. Mae'r plant wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i greu pypedau ac i animeiddio hefyd. Mae Vaganbondi'n theatr bypedau broffesiynoli sy'n darparu adloniant a gweithdai addysg yng Nghymru a Lloegr, ac rydym wedi bod yn ffodus iawn o'u cael yma yn Nhal-y-bont.

Gwaith Thema

Yn ystod y mis aeth dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 i draeth Aberystwyth i chwilota yn y pyllau dŵr ger y pier i weld beth sy'n byw yno. Er gwaethaf y glaw, fe gafodd pawb ddiwrnod wrth eu bodd ac roedd yn ffordd dda o barato'r plant ar gyfer gwaith y dosbarth.

Cyngor Ysgol

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar gael eu hethol gan eu cyfoedion i fod yn aelodau o Gyngor yr Ysgol am eleni – Megan Gwenllian, Chloe, Emily, Ellie, Efa, Miri, Glain, Rhoswen, Grace, Lauren. Maent wedi cyfarfod sawl gwaith yn barod ac rydym wedi cael sawl trafodaeth fywiog am agweddau o fywyd yr ysgol.

Llysgenhadon

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar gael eu hethol gan y plant eraill i fod yn lysgenhadon dros yr ysgol – Eli sc Angharad fel llysgenhadon, Ioan a Becca fel llysgenhadon efydd yn gyfrifol am chwaraeon yn yr ysgol a Chloe a Tomos fel llysgenhadon yr Urdd.

Ffrind Newydd

Pwy yw dy ffrind Steffan? Tybed a fydd yn ymgartrefu yn ein gwesty newydd sbon. Diolch yn fawr i Monica Lloyd Williams am ei chymorth wrth adeiladu gyda chymorth parod plant y Cyfnod Sylfaen.

Cwrdd ag Owain Glyndŵr

I gyd-fynd gyda diwrnod Glyndŵr, aeth criw o'r ysgol i Ganolfan Owain Glyndŵr ym Machynlleth i weld sioe un dyn a dod i adnabod y dyn ei hun yn well. Mae Mewn Cymeriad yn gwmni newydd sy'n darparu perfformiadau dramatig, mewn gwisgoedd cyfnod, yn seiliedig ar gymeriadau o hanes Cymru. Cafodd y plant amser da yn gwrandao ar yr hanes, yn dysgu am y cyfnod ac roedd digonedd o gyfleoedd i gymryd rhan hefyd.

Hoci

Mae llwyddiant diweddar tîm hoci'r ysgol yn parhau y tymor hwn. Yn ystod y mis diwethaf chwaraewyd tair gêm ac enillwyd y tair gan sgorio llond côl o goliau wrth wneud hynny. Diolch yn fawr i Bernard a John am eu cymorth gyda'r tîm. Da iawn chi a phob hwyl gyda gweddill y tymor.

Ysgol Tal-y-bont



Anti Shân



Cyngor Ysgol



Hoci



Cwrdd ag Owain Glyndŵr



Ysgol Eco



Llysgenhadon

Priodasau




Priodwyd Dr Andrew Birch â Jenny Yeoman yn Eglwys St Matthew, Borth yn ddiweddar. Magwyd Andrew yn Llangynfelyn a mynychodd Ysgol Tal-y-bont cyn mynd i astudio ym Mhrifysgol Lerpwl. Erbyn hyn mae'n beiriannydd cynllunio yn y diwydiant fferylliaeth. Maent wedi ymgartrefi yng Nghaer. Cafwyd y wledd briodas mewn marcî yng nghartref y teulu yng Ngoitre Fach gyda'r pâr yn mwyhau mis mel yng Nglaspwll.



Ar 5ed Medi, priododd Naomi Kay Smith, gynt o Dyfi Villa, Taliesin, â Philip Stuart Bramham o Ynys Môn yng Ngwesty'r Conrah ger Aberystwyth. Treuliodd y ddau eu mis mêl yn Las Vegas. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau.

Hyfforddiant Diffibiliwr

Ar Nos Fercher 16 Medi trefnwyd noson Hyfforddiant Diffibiliwr gan Grŵp Llifogwyr Tal-y-bont a Chalonnau Cymru. Arweinwyr y noson oedd Glan Davies a cynrhychiolwyr o adran Iechyd Cyngor Ceredigion. Treulwyd y noson yn dysgu cymorth cyntaf a sut i ddefnyddio'r peiriannau diffibiliwr sydd wedi cael eu gosod yn y pentref, un tu allan i'r Llew Gwyn, un arall tu allan y Neuadd Goffa Tal-y-bont ac un ar dalcen tŷ, Tŷ Twt.



Map Dŵr Cymerau

Ymunwch â ni i ddarganfod beth sy wedi digwydd yn ystod tymor cyntaf blwyddyn o archwilio dŵr yn Y Borth a Thal-y-bont.

Nos Iau 19 Tachwedd Lleoliad: Neuadd Goffa Tal-y-bont

Rhan 1:

6yh – Sgrinio ffilm wedi'i creu gan ddisgyblion
Ysgol Tal-y-bont

Rhan 2:

tua 6.15 – cyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd a
fydd yn helpu'r plant datblygu'r gwaith

Egwyl a raffl tua 7yh – elw tuag at RNLI a Wateraid

Rhan 3:

7.15 – cyfres o gyflwyniadau byrion gan artistiaid sy'n
gweithio gyda chymunedau Borth a Thal-y-bont, a
cipolwg ar waith i ddod yn ystod 2016

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.cymerau.org
neu ffoniwch ecodyfi: **01654 703965**

Croeso i bawb



Ar y Dibyn

9.30
8 Hydref

Brwydro yn erbyn yr elfennau dros fynyddoedd a llynnoedd – bydd wyth cystadleuydd yn wynebu cyfweiliad caletaf eu bywyd am swydd fel arweinydd antur awyr agored.

#arydibyn
s4c.cymru



Amser Stori

Mae sesiwn 'Amser Stori' bob pythefnos yn y Cwtsh yn Siop Cynfelyn rhwng 2.30yp a 3.15yp ar brynhawn Ddydd Iau. Mae cyfle i blant bach cyn-ysgol ddod i wrando ar storiâu Cymraeg a cael chwarae yn y Cwtsh. Mae casgliad helaeth o lyfrau stori newydd i blant yn Llyfrgell y siop i'w menthyg yn rhad ac am ddim. Bydd y sesiwn nesaf ar brynhawn Ddydd Iau Hydref 15ed. Mae croeso cynnes i bawb.



Gŵyl R S Thomas

Cynhaliodd Eglwys San Mihangel Wyl R.S. Thomas lwyddiannus iawn ym mis Medi gyda'r Eglwys yn llawn ar gyfer bob digwyddiad. Arweiniodd y Dr. Rowan Williams, cyn Archesgob Caergaint wasanaeth a rhoddodd araith fel rhan o'r achlysur. Roedd y gystadleuaeth farddoniaeth yn boblogaidd iawn gyda dros 30 o gynigion. Bydd peth o'r elw yn mynd tuag at 'Barnabus Christian fund' i gefnogi plant ffoaduriaid.



Dr Rowan Williams (ar y chwith) gyda rhai o'r offeiriad enaill a fu'n cymryd rhan.

Y Gair Olaf



Cafodd pawb ohonom ein brawychu gan y nifer o bobl a geisiodd gyrraedd Ewrop trwy bob math o anawsterau i gael ymgeledd rhag y brwydro ffyrnig sydd yn rhwygo Syria ers dros bedair blynedd bellach. Bu criwiau o bobl dros y sir yn casglu nwyddau ac arian i'w anfon i'w cynorthwyo. Mae grŵp Aberaid, yn gweithio yn ardal Aberystwyth ac yn ogystal â chasglu nwyddau, buont wrthi yn frwd yn casglu dros 500 o enwau ar ddeiseb a gyflwynwyd i mi ddoe. Yn wahanol i'r deisebau arferol, doedd hwn ddim yn gwrthwynebu unrhywbeth roedd y Cyngor Sir wedi'i wneud, roedd hwn yn gofyn i'r Cyngor baratoi i groesawu hyd at hanner cant o deuluoedd o ffoaduriaid i Geredigion.

Roedd yn bleser cael cwrdd â nhw ac i'w sicrhau bod y Cyngor Sir, gyda'n partneriaid, statudol a gwirfoddol, eisoes yn paratoi i wneud hyn pan fydd Llywodraeth Llundain yn penderfynu caniatáu iddynt ddod.

Mae hyn wedi tanlinellu i mi pa mor fawr i'w calonau pobl Ceredigion pan fo pobl angen cymorth a chefnogaeth. Gwelwyd yr un ymchwydd o gefnogaeth yn ein cymuned ni yma adeg y llifogydd tair blynedd yn ôl.

Er bod y teuluoedd y byddwn yn eu croesawu yn wahanol i ni o ran iaith a diwylliant, pobl ydyn nhwythau ac rydym i gyd yn aelodau o'r ddynolryw. Cofiw'n am y miliynau o bobl ar draws Ewrop a gollodd eu cartrefi yn ystod yr ail ryfel byd a faint ohonynt a gafodd eu croesawu yma'r pryd hynny. Unigolion a theuluoedd sydd bellach yn rhan annatod o'n cymunedau heddiw.

Ellen ap Gwynn

	<p>Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batrîs Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT</p>	
Glanyrafon	HUWLEWISTYRES.COM	Rhodfa'r Parc
<p>Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221</p>		

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled
 rhad ac am ddim*

James Memorials
 Vicarage Crossing,
 Llandre, Bow Street
 Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol
 Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
 estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
 Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760



CHWARAEON



Cap Cymru i Jane

Mae Jane Bailey wedi cael ei dewis i fod yn aelod o sgwad 'Masters' hoci Cymru. Mae hi'n chwarae i'r tîm 'Masters' i ferched oed 55+. Cymrodd rhan mewn cystadleuaeth genedlaethol yn Wakefield ym mis Mehefin a daeth Cymru yn ail. Bu hefyd ym Mhencampwriaeth Ewrob yn Llundain yn mis Awst pan ddaeth Cymru yn drydydd. Yn ystod Pasg 2016, bydd Jane a'i thîm yn teithio i Canberra, Awstralia i chwarae yng Nghwpan 'Masters' y Byd. Llongyfarchiadau mawr iawn i Jane ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn ei chap Cymru a'i gwisg swyddogol cyn bo hir.

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

argraffu da
am bris da



y|lolf holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Llwyddiant i'r Ieuencid

Cafodd tri o dimau Ieuencid Tal-y-bont hwyl arni yng Ngŵyl Bêl-droed Gary Pugh gan ennill yn yr adrannau dan 8, dan 10 a dan 14. Bydd saith tîm gyda'r Ieuencid eleni yn cystadlu yng Nghyngair Ieuencid Aberystwyth. Dymuniadau da i bob un ohonynt.



Enillwyr dan 8, Tal-y-bont Teirw



Enillwyr dan 10, Tal-y-bont Taranau



Enillwyr dan 14, Tal-y-bont